

Free / Am Ddim

Rural Walks in Flintshire

Cerdded yng Nghefn Gwlad Sir y Fflint

Flintshire Countryside Service

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint

Rural Walks in Flintshire



Cerdded yng Nghefn Gwlad Sir y Fflint

Including new Ten Minute Walks / Gant gynnwys teithiau cerdded 10 munud newydd

Third Edition / Trydydd rhifyn

Welcome to Flintshire



Contents

| |
|-------------------------------|
| The Walks |
| Choosing your Walk |
| Using this Guide |
| Flintshire's Landscapes |
| Flintshire's Heritage |
| Walk Descriptions |
| Meet the Health Challenge - |
| Walk more often |
| Open Access |
| Explore Flintshire |
| A Taste of Flintshire |
| Further Information |

Cynnwys

| |
|---|
| 4 <i>Y Teithiau Cerdded</i> |
| 6 <i>Dewis eich Taith</i> |
| 8 <i>Sut i Ddefnyddio'r Arweiniad hwn</i> |
| 12 <i>Tirweddau Sir y Fflint</i> |
| 20 <i>Treftadaeth Sir y Fflint</i> |
| 26 <i>Disgrifiad o'r Teithiau</i> |
| 26 <i>Wynebu'r Her Iechyd -</i> |
| 78 <i>Cerddwch yn amlach</i> |
| 80 <i>Mynediad Agored</i> |
| 82 <i>Archwilio Sir y Fflint</i> |
| 84 <i>Blas ar Sir y Fflint</i> |
| 87 <i>Rhagor o wybodaeth</i> |

Written and edited by Lorna Jenner, Pete Lewis, Nic Sheerin and Dave Shiel. Design Jane Searle and Carl Rogers; Cartography Bill Smuts and Carl Rogers. Bird photography by Simon Booth Photography. All other photography courtesy of Carl Rogers, Lorna Jenner, Pete Lewis and Flintshire County Council unless otherwise stated. Colour repro and typesetting Jane Searle. Printed by WPG 01938 552260.
Ysgrifennwyd a golygydd gan Lorna Jenner, Pete Lewis, Nic Sheerin, a Dave Shiel. Cynllun gan Jane Searle a Carl Rogers; Cartograffiaeth gan Bill Smuts a Carl Rogers. Ffotograffau Adar gan Simon Booth Fotograffiaeth. Yr holl ffotograffau eraill drwy garedigrwydd Carl Rogers, Lorna Jenner, Pete Lewis a Chyngor Sir y Fflint, oni nodir fel arall. Atgynhyrchiad lliw a theiposod gan Jane Searle. Argraffwyd gan WPG 01938 552260.

Croeso i Sir y Fflint

Rural Flintshire is a landscape of incredible variety. Walk the magnificent open moorland of the Clwydian Range Area of Outstanding Natural Beauty (AONB) for its strenuous ascents to wild, upland heaths with stunning views. Explore the quiet riversides, wooded valleys, and rolling farmland of Llanasa, Ysgeifiog, Whitford and Caergwrle. Discover the wildlife-rich coasts that fringe our county at Talacre and along the Dee Estuary. Or for an alternative stroll, why not discover the rich stories of industrial heritage of Halkyn, Greenfield and Buckley?

Yng Nghefn Gwlad Sir y Fflint mae yna dirwedd sy'n anhygoel o amrywiol. Crwydrwch ar rostiroedd godidog Bryniau Clwyd, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gan fwynhau dringo'n egniol i'r rhostir gwylt i weld golygfeydd syfrdanol. Ewch i lannau tawel yr afonydd, y cymoedd coediog a'r tiroedd fferm yn Llanasa, Ysgeifiog, Chwitffordd a Chaergwrle. Dewch i weld cyfoeth y bywyd gwylt ar arfordir ein Sir yn Nhalacre ac yn Aber yr Afon Dyfrdwy. Neu, am dro bach gwahanol, beth am ddod i ddarganfod yr hanesion diddorol sydd yn ardaloedd diwydiannol Helygain, Maes Glas a Bwcle?

Also available...
Rural Walks in Denbighshire
Out Now!

Hefyd...
Cerdded yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych
Ar gael nawr!

Produced by Flintshire Countryside Service, in collaboration with the Clwydian Range Area of Outstanding Natural Beauty, the Ramblers Association, Flintshire's Tourism Section and the Countryside Council for Wales.

The maps in this publication are reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office

© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Flintshire County Council, 100023386

First edition 2006 kindly funded by Article 33 from the Welsh Assembly Government. Reprint 2008. Third edition 2010 reprint supported by Flintshire's Rural Development Partnership.

Cynhyrwyd gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint, mewn cydweithrediad ag Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd, Cymdeithas y Cerddwyr, Adran Dwrisiaeth Sir y Fflint a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Atgynhyrchr y mapiau yn y daflen hon o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfra Ei Mawrhydi

© Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Sir y Fflint, 100023386

Ariannwyd y rhifyn cyntaf yn 2006 trwy garedigrwydd Erthygl 33 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ailgraffiad 2008. Ailgraffwyd trydydd rhifyn 2010 gyda chymorth Partneriaeth Gwledig Sir y Fflint.



The Walks

Y Teithiau Cerdedd

This book features 29 of the best walks in rural Flintshire. They have been picked to give you a wide variety of routes that can be enjoyed throughout the year. See page 6 for further details on how the walks have been graded.

See also pages 78-86 for information about open access and other walking opportunities in the county.

Yn y llyfr hwn ceir 29 o deithiau cerdded gorau cefn gwlad Sir y Fflint. Cafodd pob taith ei dewis yn ofalus gennym er mwyn cynnig nifer o deithiau amrywiol y gallwch eu mwynhau drwy'r flwyddyn. Edrychwrh ar dudalen 6 i gael gweld sut rydym wedi graddoli'r troeon.

Edrychwrh ar dudalennau 78-86 i gael gwylod am y tir Mynediad Agored a ffyrdd eraill i ymweld â'r Sir.

Grade / Graddfa:

- Easy / Hawdd
- Moderate / Cymedrol
- Strenuous / Egniol
- Open access common / Comin mynediad agored
- 10 minute walk / Taith gerdded 10 munud

| Walk number / Rhif y daith | Walk name / Enw'r daith | Distance / Pellter | | Page / Tudalen |
|----------------------------|--|---|---------|----------------|
| | | Miles / Milltiroedd | km / km | |
| 1 | Caerwys – Ysceifiog Caerwys – Ysgceifiog | 5 | 8 | 26-27 |
| 2 | Ffynnongroyw (Long / Hir) | 4.6 | 7.4 | 28-29 |
| 3 | Ffynnongroyw (Short / Byr) | 3.7 | 5.9 | 28-29 |
| 4 | Hawarden Penarlâg | 5 | 8 | 30-31 |
| 5 | Hope Mountain Mynydd yr Hob | 6 | 9.6 | 32-33 |
| 6 | Nant y Ffrith | 5.5 | 8.8 | 34-35 |
| 7 | Northop – Sychdyn Llaneurgain – Sychdyn | 5 | 8 | 36-37 |
| 8 | Waun y Llyn – Llanfynydd | 4 | 6.4 | 38-39 |
| 9 | Wepre (Long) Gwepra (Hir) | 4 | 6.4 | 40-41 |
| 10 | Wepre (Short) Gwepra (Byr) | 2.5 | 4 | 40-41 |
| 11 | Whitford Chwytffordd | 5 | 8 | 42-43 |
| 12 | Talacre | 1.7 | 2.8 | 44-45 |
| 13 | Buckley Bwcle | 2.8 | 4.5 | 46-47 |
| 14 | Caerwgrle & Hope Caerwgrle a'r Hob | 2.5 | 4 | 48-49 |
| 15 | Greenfield Valley Dyffryn Maesglas | 2.5 | 4 | 50-51 |
| 16 | Halkyn Mountain Mynydd Helygain | Open access common Comin mynediad agored | | 52-53 |
| 17 | Gwaenysgor – Llanasa | 6.2 | 10 | 54-55 |
| 18 | Hendre-Bodfari | 6.8 | 11 | 56-57 |
| 19 | Loggerheads – Cilcain | 6 | 9.6 | 58-59 |
| 20 | Loggerheads – Moel Famau | 6.1 | 9.8 | 60-61 |
| 21 | Loggerheads – Moel Findeg | 5 | 8 | 62-63 |
| 22 | Moel Arthur – Cilcain | 6 | 9.6 | 64-65 |
| 23 | Moel Arthur – Penycloddiau | 6.8 | 11 | 66-67 |
| 24 | Nercwys Forest Coedwig Nercwys | 2.4 | 3.9 | 68-69 |
| 25 | Trelawnyd – Gwaenysgor | 5.5 | 8.8 | 70-71 |
| 26 | Wepre Park Parc Gwepra | 10 min | | 72 |
| 27 | Etna Park Parc Etna | 10 min | | 73 |
| 28 | Pandy Pool Pwll Pandy | 10 min | | 74 |
| 29 | Dee Coastal Path Llwybr Arfordirol Afon Dyfrdwy | | | 75-76 |



Flintshire
Sir y Fflint
CYNGOR
SIR Y FFLINT
FLINTSHIRE
COUNTY COUNCIL



Clwydian Range Area of Outstanding Natural Beauty
Ardal of Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd



Country Park
Parc gwledig



10 minute walk
Taith gerdded 10 munud

Choosing your Walk

Dewis eich Taith

This book has been designed to introduce you to some of the best walking that Flintshire has to offer. In order that you enjoy your day to its fullest, be realistic about what level of walk best suits your ability.

The walks are graded **EASY**, **MODERATE** and **STRENUOUS**. Some sections on many of the walks are suitable for buggies or wheelchairs, but none are fully accessible. See walks' descriptions for detail.

EASY Generally flat and relatively short distances. Follows surfaced tracks, lanes or well-trodden footpaths.

MODERATE Undulating farmland, following quiet lanes, paths and tracks, often with many stiles. 4-6 miles distance.

STRENUOUS Open country with at least one steep ascent/descent. More than 5 miles. Follows paths, tracks and may use Open Access Land (page 80).

● The 10 Minute Walks

We have also identified sections of our Rural Walks across Flintshire that are ideal for a short trip in the countryside for families wanting to get out with young children, wheelchair users, or anyone who can only do a short distance.

Each section will be near a good place to park, and the grading below will give you an idea of what to expect of the surface. This guide assumes that all kissing gates are unsuitable for wheelchairs or buggies to get through.

- Access for a wheelchair or buggy. Flat, level surfaces.
- No wheelchair / buggy access. Fairly level surfaces without stiles, slopes or steps.
- Slightly more adventurous. Good surfaces, but there may be slopes, an uneven section, or one or two steps.

Amcan y llyfr hwn yw eich cyflwyno i rai o deithiau cerdded gorau Sir y Fflint. I fwynhau eich diwrnod i'r eithaf cofiwch fod yn realistig yngylch pa lefel o daith fydd yn addas ar gyfer eich gallu chi.

Dosberthir y teithiau cerdded fel a ganlyn: **HAWDD** **CYMEDROL** neu **EGNÍOL**. Mae rhannau o nifer o'r teithiau'n addas i fygis neu gadair olwyn ond nid oes yr un daith yn hygrych bob cam o'r ffordd. Edrychwrh ar y disgrifiadau o'r teithiau i gael y manylion.

HAWDD Yn wastad ar y cyfan a theithiau cymharol fyr. Cerdded ar lwybrau sydd ag wyneb caled, a lonydd neu lwybrau a ddefnyddir yn aml.

CYMEDROL Tir fferm pantio, cerdded, cerdded ar lonydd a llwybrau tawel, ambell gamfa. Pellter 4-6 milltir.

EGNÍOL Gwlad agored gydag o leiaf un man dringo/disgyn serth. Mwy na 5 milltir. Cerdded ar lwybrau a thraciau gan ddefnyddio Tir Mynediad Agored hefyd, efallai (tudalen 80).

● Teithiau Cerdded 10 Munud

Rydym hefyd wedi nodi rhannu o'n Teithiau Cerdded sy'n ddelfrydol ar gyfer taith fer i'r wlad e.e. teuluoedd sydd am gerdded gyda phlant ifanc, defnyddwyr cadair olwyn, neu bobl nad ydynt yn gallu cerdded ymhell.

Bydd lle da i barcio ger bob un o'r teithiau hyn, a bydd yr allwedd isod yn rhoi syniad i chi o'r dirwedd. Mae'r arweiniad hwn yn cymryd yn ganiataol na all cadeiriau olwyn na bygis fynd drwy giatiau mochyn.

— Mynediad i gadair olwyn neu fygi. Tir gwastad.

— Dim mynediad i gadair olwyn na bygi. Tir gweddol wastad, heb gamfeydd, llethrâu na stepiau

— Ychydig yn fwy anturus. Lwybrau da ond mae'n bosibl y byddant yn cynnwys llethrâu, rhan anwastad neu un neu ddau o stepiau.



The Countryside Code

Y Cod Cefn Gwlad

RESPECT • PROTECT • ENJOY

- Be safe – plan ahead and follow any signs
- Leave gates and property as you find them
- Protect plants and animals, and take your litter home
- Keep dogs under close control
- Consider other people

PARCHWCH • DIOGELWCH •
MWYNHEWCH

- Byddwch yn ddiogel – cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Ewch â'ch sbwriel adref, a gofalwch warchod bywyd gwylt
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill



Please be sensitive to the needs of local residents and farmers and follow the Countryside Code at all times.

Cofiwch fod yn ymwybodol o anghenion y trigolion lleol a'r ffermwyr drwy ddilyn y Cod Cefn Gwlad bob amser.



Images © Aardman Animation Ltd 2004

For the full Countryside Code and information on where to go and what to do, visit www.ccw.gov.uk or telephone 0845 130 6229
I weld y Cod llawn a chael rhagor o wybodaeth am ble i fynd a beth i'w wneud, ewch i www.ccw.gov.uk new ffoniwch 0845 130 6229



Using this Guide



Each of the Flintshire walks is illustrated with a detailed map and enough information to find and follow the routes. You should be able to navigate with the guide on its own but always take along the relevant Ordnance Survey Explorer map as a precaution. (265 Clwydian Range, 256 Wrexham/Llangollen or 266 Chester cover all the walks). This is particularly important for the upland routes and those that are more off the beaten track, such as Hope Mountain. Familiarise yourself with the map key and the abbreviations for the route directions (right) before you set off.

Individual walk descriptions are available to download from www.flintshire.gov.uk/countryside

Be prepared

Wherever you choose to walk, make sure that you wear a stout pair of walking shoes and clothing appropriate for the time of year. Always take spare food and drink with you.

Many of the walks pass pubs and shops, but we advise that you check opening hours before you set out.

Waymarking

The standard yellow footpath and blue bridleway arrows are used on all routes. However many of the routes have additional waymarking eg. Offa's Dyke National Trail or Flintshire Countryside Service Circular Walk discs. Detail is given in each route description.



Footpath waymark



Bridleway waymark



Permissive path waymark

Abbreviations

To save space the route directions are note-like and include several abbreviations.

RHS – right hand side

R – right

L – left

LHS – left hand side

KG – kissing gate

BW – bridleway



Sut i Ddefnyddio'r Arweiniad hwn



Ceir map i ddarlunio pob un o deithiau cerdded Sir y Fflint ac mae yma ddigon o wybodaeth ichi allu ffeindio a dilyn y llwybrau hyn. Dylech fod yn gallu dod o hyd i'r llwybrau gan ddefnyddio'r arweiniad hwn yn unig, ond dylech bob amser gario map Explorer priodol yr Arolwg Ordnans (Bydd 265 Bryniau Clwyd, 256 Wrecsam/Llangollen neu 266 Caer yn ddigonol ar gyfer yr holl deithiau cerdded hyn). Mae cario map yn arbennig o bwysig ar gyfer cerdded ar y mynydd a'r llwybrau diarffordd, fel Mynydd yr Hob. Cyn ichi gychwyn, dylech ddarllen yr allwedd i'r mapiau a'r byrfoddau i'r disgrifiadau (ar y dde).

Mae'r holl wybodaeth am y teithiau hyn ar gael i'w llwytho i lawr o
www.siryffflint.gov.uk/cefngwlad

Paratoi

Ble bynnag y byddwch yn cerdded, gofalwch eich bod yn gwisgo esgidiau cerdded cryf, a dillad sy'n addas at yr amser o'r flwyddyn. Cofiwch am fwyd a diod ychwanegol.

Ar lawer o'r teithiau byddwch yn mynd heibio tafarnau a siopau, ond awgrymwn eich bod yn holi am yr oriau agor cyn cychwyn ar eich taith.

Arwyddion

Ar yr holl deithiau, defnyddir yr arwyddion safonol melyn ar y llwybrau troed a'r rhai glas ar y llwybrau ceffylau. Mae arwyddion ychwanegol ar nifer o'r llwybrau fel Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, neu ddisgiau Taith Gerdded Gylchol Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint. Mae'r holl wybodaeth yma ar gael yn y disgrifiadau o'r teithiau.



Arwydd llwybr troed



Arwydd llwybr ceffylau



Arwydd llwybr caniataol

Byrfoddau

I arbed lle, ysgrifennwyd cyfarwyddiadau'r teithiau ar ffurf nodiadau sy'n cynnwys nifer o fyrfoddau.

LIDd – ar y llaw dde

Dd – y dde

Ch – y chwith

LICh – ar y llaw chwith

GM – giât mochyn

LIC – llwybr ceffylau



Taking your Dog

Mynd â'r Ci am Dro



For many people walking with their dogs is a great pleasure. However, please ensure that your dogs are under control at all times and please clear up after them.

Much of the open moorland on the Clwydian Range is grazed by sheep and many of the other walks cross fields of sheep and cattle. Please make sure your dog is kept on a short lead near livestock at all times and take particular care during the lambing and calving seasons. Cows are very protective of their calves and can chase dogs. Please do not allow your dog to disturb wildlife. Take particular care during the bird nesting season (March-July).

Stiles can prove a problem for some dogs. These are marked on the maps and in the route directions. New "dog friendly" stiles and kissing gates are being installed in busier areas but many traditional stiles remain.

Nercwys Forest, the coastal walk at Talacre, and sections within Loggerheads and Wepre Country Parks, are ideal for dog walking as they have neither livestock nor stiles.

Mae mynd â'r ci am dro yn rhoi pleser mawr i nifer o bobl. Gofalwch fod eich ci o dan reolaeth bob amser a chofiwch lanhau'r baw ar ei ôl.

Bydd defaid yn pori ar lawer o rostiroedd agored Bryniau Clwyd, ac ar nifer o deithiau eraill ceir defaid a gwartheg yn y caeau. Gofynnir ichi ofalu fod eich ci ar dennyn byr pan fo anifeiliaid fferm o gwmpas, a chymerwch ofal arbennig yn ystod y tymor wyna a bwrw llo. Mae buchod yn amddiffynnol iawn o'u llo i gallant reded ar ôl cŵn. Peidiwch â gadael i'ch ci darfu ar y bywyd gwylt. Cymerwch ofal arbennig yn ystod y tymor nythu (Mawrth - Gorffennaf).

Gall camfeydd fod yn anodd i rai cŵn. Dangosir y camfeydd ar y mapiau ac yn y cyfarwyddiadau i'r teithiau cerdded. Yn y lleoedd prysur gosodwyd camfeydd newydd a giatiau mochyn, sy'n haws i gŵn, ond mae llawer o'r hen gamfeydd yn dal yno.

Dyma leoedd sy'n ddelfrydol ar gyfer mynd â'r ci am dro heb unrhyw gamfeydd nac anifeiliaid fferm:- Coedwig Nercwys, Llwybr Glan y Môr Talacre, a rhannau o Barciau Gwledig Loggerheads a Gwepra.



Using the Bus

Mynd ar y Bws

Using the bus network is an ideal way to reduce traffic problems in the rural villages. It is particularly good for linear walks, avoiding the need to leave cars at start and finish.

The number **14 Mold-Denbigh** bus runs regularly, Monday to Saturday, throughout the year and is useful for accessing walks along the Clwydian ridge. (See Walk 18, Hendre-Bodfari). The **B5 Loggerheads Link**, from Mold to Ruthin, may also be useful for walkers.

In summer Denbighshire County Council and the AONB run the **Clwydian Ranger** service on Sundays and selected weekdays. This includes additional routes that are ideal for walkers wanting to explore the Clwydian Range without their car.

For timetables telephone:
Flintshire County Council
01352 704035

Denbighshire County Council
01824 706968

Ffordd ddelfrydol o leihau problemau traffig yn y pentrefi gwledig yw defnyddio'r rhwydwaith bysiau. Mae taith ar fws yn arbennig o hwylus ar gyfer y teithiau cerdded llinellol, gan arbed yr angen am barcio ceir ar y dechrau a'r diwedd.

Mae bws rhif **14 o'r Wyddgrug i Ddinbych** yn rhedeg yn rheolaidd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn drwy'r flwyddyn, mae'n hwylus ar gyfer y teithiau ar Fryniau Clwyd (gweler taith 18, Hendre i Fodfari). Gall y **B5 (sef Dolen Loggerheads)** o'r Wyddgrug i Ruthun fod o gymorth i gerddwyr hefyd.


Yn ystod yr haf bydd Cyngor Sir Ddinbych ac AHNE yn rhedeg gwasanaeth **Bysiau Clwyd** ar ddydd Sul ar rai penwythnosau penodol. Cynigia'r gwasanaeth hwn rai ffyrrd ychwanegol sy'n ddelfrydol i'r cerddwyr sydd am ddarganfod Bryniau Clwyd heb ddefnyddio'u ceir.

I gael taflen amser, ffoniwch:
Cyngor Sir y Fflint ar
01352 704035
Cyngor Sir Ddinbych ar
01824 706968



Flintshire's landscapes

Moorland / Rhos tiroedd



Clwydian Range
Bryniau Clwyd



Meadow pipit
Corhedydd y waun

Windswept and wild in winter, the open moorland becomes a breathtaking spectacle in summer. The heather flowers and seems to turn the hillsides purple, even though bilberry and the prickly gorse thrive alongside it. Where the mountain rains gather, bright green rush and spongy moss are spotted with the white fluffy dots of cotton grass, and insectivorous sundews. When insect snacks are plentiful the high moorland is alive with birdsong. Buzzards hunt overhead for unwary rabbits. Smaller migrant birds such as wheatears and whinchats return to the moorland to breed, and skylarks sing lustily, high in the sky.

Dyma dirwedd wylt a gwyntog yn y gaeaf ond pan ddaw'r haf fe dry'r rhostir agored yn syfrdanol o hardd. Pan fydd y grug yn ei flodau bydd y moelydd yn borffor ac yn ei ganol bydd llus y mynydd ac eithin yn ffynnu. Yn y mannau lle mae glaw'r mynydd yn cronni fe welwch y brwyn a'r mwsogl gwyrdd llachar ymsg planhigion fel plu'r gweunydd a'r gwylthys prifysol. Pan fod digonedd o bryfed ar gael i'r adar yna mae'r mynydd yn fyw gyda'u canu. Uwchben, bydd y bwncathod a'r cudyll coch yn chwilio am y cwningod anwyliadwrus. Daw'r adar ymfudol llai fel y dinwen a chrec yr eithin yn ôl i'r ardal i fagu cywion, ac fe glywch yr ehedydd yn uchel uwch eich pen.

Woodland / Coedlannau



Bishop's Wood
Coed yr Esgob



Exploring the lush woodlands of the county is a tranquil treat at any time of the year. Spring carpets the woodland floor with primroses, wood anemones, violets and bluebells, whilst the low autumnal sun sets their leafy tints of gold and red ablaze. Many of these broadleaved woodlands are native, having grown here naturally for centuries. A rich variety of wildlife has established under the quiet protection of their eaves. Luxuriant mosses and ferns provide an emerald backdrop for nocturnal badgers, whilst small gangs of long tailed tits dart through the high canopy. Look out also for other striking regulars such as woodpeckers, treecreepers, sparrowhawks and kestrels.

Mae darganfod coedlannau toreithiog y sir yn bleser tawel ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Yn y gwanwyn bydd llawr y goedlan yn garped o friallu, blodau'r gwynt, fioledau a chlychau'r gog. Yn yr hydref bydd yr haul gwan yn cynnau lliwiau aur a choch y dail. Coed brodorol yw llawer o'r coedlannau llydanddail hyn a fu yma'n tyfu'n naturiol ers canrifoedd. O dan warchodaeth y dail ymsefydlodd amrywiaeth helaeth o fywyd gwylt. Daw'r moch daear allan yn y nos ymhlieth gwyrddni'r mwsogl a'r rhedyn a bydd y titw cynffon hir yn gwibio drwy ganopi uchel y coed. Chwiliwch am yr adar arferol fel cnocell y coed, y dringwr bach, a'r hebog.

Flintshire's landscapes

Limestone



Bryn Alyn



Tortoiseshell
Iâr fach amryliw

Many millennia ago, a warm sea full of tiny crustaceans covered Flintshire. Our grey limestone is made of the compressed shells of these creatures. Look for their fossilised remains in the exposed rock faces.

Limestone is soft and full of cracks and holes, so weathers easily. The caves, rocky outcrops and cliffs of Loggerheads, Ffrith and Prestatyn Hillside are the result. Bizzare limestone pavement forms where rain water has dissolved away cracks and joints in the rock. Explore these at Loggerheads and Bryn Alyn. Watch out also along the River Alyn, where some stretches seem to dry up completely as its waters vanish underground through cracks or swallow holes in the ground.

Look out for the rich variety of wildflowers that thrive in colourful abundance on the thin limestone soils during the summer months. They provide food for a myriad of butterflies and other insects, and make our limestone uplands rich in wildlife.

Calchfaen



Harebell
Clychau'r bugail



Burnet moth
Gwyfyn bwrnet



Pyramidal orchid
Tegeirian bera

Filoedd lawer o flynyddoedd yn ôl roedd Sir y Fflint o dan fôr o ddŵr cynnes oedd yn llawn o anifeiliaid bach cramenog. Cregyn cywasgedig y creaduriaid hyn yw'r calchfaen llwyd sydd ar ein tir. Chwiliwch am eu holion ffosiledig ar wynebau agored y creigiau.

Am fod y garreg galch yn feddal ac yn llawn holtau, cafodd ei threulio gan y tywydd gan ffurio ogofeydd a chlogwyni yn Loggerheads, y Ffrith a Bryn Prestatyn. Ffurffodd palmentydd calchfaen hynod ble mae'r dŵr glaw wedi toddi cafnau a holtau'r creigiau. Edrychwch amdanynt yn Loggerheads a Bryn Alun, a chwiliwch yr Afon Alun i weld rhannau ohoni wedi diflannu'n llwyr o dan y ddaear drwy graciau a llyncdyllau.

Edrychwch am yr amrywiaeth helaeth o flodau gwyllt sy'n ffynnu ar y pridd

calchfaen tenau yn ystod yr haf. Mae'r blodau'n fwyd i fyrrd o loÿnnod byw a phryfed eraill sy'n cyfrannu at fywyd gwyllt cyforiog y mynydd calchfaen.

Flintshire's landscapes

Rivers / Afonydd



Loggerheads

Naturally sloping from the high Clwydians to the sea, Flintshire is a county of fast flowing streams in wooded valleys. Explore the banks of the fast flowing River Alyn or Wepre Brook, where you may see the quick darts of dippers and grey wagtails, or even kingfishers as they feed on insects and small fish.

The summer air above our wetlands is alive with colourful dragonflies and damselflies. White flowers of water-crowfoot float on calm waters fringed with yellow flag iris and meadowsweet. Rare great crested newts thrive in many local ponds, and chase their insect prey in the surrounding grasslands by night.

Am fod Sir y Fflint yn goleddu o Fryniau uchel Clwyd i'r môr mae ynddi lawer o nentydd cyflym mewn dyffrynnoedd coedioedd. Dewch i archwilo glannau Afon Alun neu Nant Gwepra a gweld bronwen y dŵr a'r siglen lwyd yn gwibio neu'r glas y dorlan yn bwydo ar bryfed a physgod bychain.

Yn yr haf mae ein gwlypdiroedd yn ferw o weision y neidr a mursennod. Bydd blodau gwynion crafanc-y-dŵr yn nofio ar wyneb llyfn y dŵr, ac iris felen ac erwain yn blodeuo ar y glannau. Mewn nifer o'r llynnoedd lleol bydd y fadfall ddŵr gribog yn ffynnu gan hela'r pryd yn y nos ar y glaswelltiroedd sydd o'i chwmpas.

Dipper
Trochwr

Farmland / Tir Amaeth



Skylark
Erythacus rubecula



Our fertile soils have long been cultivated. Over three quarters of the county is agricultural and farmed by communities who have been the custodians of our rural landscape for generations. Verdant green pastures roll from the rough uplands to the shores of the Dee, well clipped by the constant grazing of sheep, cattle and horses. Flower filled meadows, edged by thick hedges and fringed with poppies and harebells are a true summer delight. Fragrant honeysuckle and dog rose clamber across fenceposts and old gates. Traditional stone walls give shelter to our smaller wildlife, whilst hares, lapwings and the now rare skylark enjoy the cover of rougher grassland.

Bu pobl wrthi'n trin ein pridd cyfoethog ers oesoedd lawer. Mae dros dri chwarter y sir yn dir amaethyddol sy'n cael ei amaethu gan gymunedau a fu'n gwarchod ein tirwedd cefn gwlad ers canrifioedd. Mae dolydd gwyrdd y llethrâu'n rholio i lawr o'r mynydd garw tua glannau Afon Dyfrdwy ac mae'r defaid, y gwartheg a'r ceffylau'n cadw'r glaswellt yn fyr. Yn yr haf mae'r dolydd yn llawn blodau, a gwaelodion y gwrychoedd trwchus yn doreithiog o flodau gwylt fel y pabi a chlych yr eos sy'n rhoi pleser di-ben-draw. Bydd gwyddfid peraroglus a rhosyn gwylt yn dringo dros byst ffensys a hen giatiau. Yn y waliau cerrig traddodiadol bydd yr anifeiliaid gwylt bach yn cael noddfa a bydd ysgyfarnogod, cornicyllod ac echedyddion, sy'n brin erbyn hyn, yn mwynhau lloches y glaswelltir garwach.

Flintshire's landscapes

Estuary / Aber



Redshank
Pibydd coesgoch



Little tern
Môr-wennol fach

The Dee Estuary is an internationally important destination for huge numbers of migrating birds that over-winter here from September to April each year. Spectacular flocks of oystercatcher, dunlin, and knot fly here from Northern Europe to avoid the desperately cold Arctic winter. Redshank and skylark breed on the inner marshes and shingle banks. The Dee's nutrient-rich mudflats are full of tiny shellfish that provide an abundant food source for the birds. Protected by an international agreement made at the Ramsar Convention, the estuary is a treasure-trove for wildlife watchers, from the foxes that prowl the marshes, to the seal colony at its mouth.

Lle pwysig yn fydd-eang yw aber Afon Dyfrdwy am fod nifer fawr o adar mudol yn gaeafu yma o fis Medi i fis Ebrill bob blwyddyn. Bydd y bioden fôr, pibydd y mawn a'r a phibydd yr aber yn heidio yma o Ogledd Ewrop rhag oerni ofnadwy gaeaf llwm yr Arctig. Mae'r pibydd coesgoch a'r ehedydd yn magu cywion ar y tir corslyd a'r mariandir caregog. Lleoedd rhyfeddol o faethlon yw traethellau Afon Dyfrdwy, yn ffynhonnell hael o fwyd i'r adar. Caiff yr aber ei gwarchod drwy gytundeb rhyngwladol a wnaed gan Gytundeb Ramsar, ac mae'n drysor o le i'r rhai sy'n hoffi gwyllo bywyd gwylt fel llwynogod sy'n hela ar y corsydd a'r gytref o forloi sy wrth geg yr afon.

Coast / Arfordir



Talacre



Natterjack toad
Llyffant y twyni

Spectacular sand dunes and beaches fringe the northern coasts of the county from Gronant to Talacre. They provide both vital natural flood protection from the sea, and a home for the only breeding population of Natterjack toads in Wales, plus a colony of rare Little terns. Only the most specialised plants can grow in their dry, salty soils. Spiky leaved sea holly and the spikes of marram grass tolerate the constant sea breezes of this important conservation area. Wander to the famous 17th century lighthouse on award winning beaches at low tide, with spectacular views of the Wirral and North Wales coastlines.

Ar hyd ymylon glannau môr gogledd y Sir o Ronant i Dalacre gwelir y twyni tywod a'r traethau anhygoel. Dyma amddiffynfeydd naturiol rhag llifogydd y môr a chartref i'r unig boblogaeth o Lyffant y twyni sy'n magu yng Nghymru, yn ogystal â nythfa o Forwenoliaid prin. Y planhigion mwyaf arbenigol yn unig sy'n gallu tyfu yn y pridd sych, hallt hwn. Bydd celyn y môr gyda'i ddail pigog a'r moresg yn gallu goddef gwynt di-ball y môr yn yr ardal gadwraeth bwysig hon. Pan fo'r llanw ar drai, gallwch grwydro i'r goleudy enwog o'r 17eg ganrif ar draws draethau a enillodd wobrau a cheir yma olygfeydd rhyfeddol o lannau môr Cilgwri a Gogledd Cymru.

Flintshire's Heritage

Frontier Country



Moel Arthur



Trimley Hall, Llanfynydd
Plas Trimley, Llanfynydd

Border Lands

Flintshire is remarkably rich in historical remains, simply because it has been frontier country for centuries. Strategically placed Iron Age hillforts, such as Penycloddiau and Moel y Gaer, dominate the skyline of the Clwydians and Halkyn Mountain.

The Romans marched through the area for more than three hundred years, leaving numerous remains.

Parts of Offa's and Wat's Dykes can still be seen. These once massive earth banks and ditches were constructed by the Saxons in the 8th century to mark the boundary with Wales.

Flintshire is dotted with castles built during the ongoing power struggle between the Welsh princes and

Norman kings. Ewloe and Caergwrle were Welsh castles but Flint and Hawarden were Norman. Imposing Flint Castle was the first of Edward I's string of castles along the Welsh coast, built during his first onslaught into Wales in 1277. It was impregnable and, although besieged, was never taken, unlike Hawarden that was captured in 1282.

Flintshire was important spiritually too. St Winefride's Well was one of the most revered places of Christian pilgrimage in Europe and the now ruined Basingwerk Abbey was wealthy and influential. The picturesque village churches and chapels bear testament to the key role religion played in everyday life.

Tir y Gororau



Caergwrle Castle
Castell Caergwrle



St Winefride's Well
Ffynnon Gwenfrewi

Y Gororau

Mae Sir y Fflint yn sir ryfeddol o gyfoethog o ran olion hanesyddol am iddi fod yn wlad y gororau ers canrif oedd. Ar Fryniau Clwyd a Mynydd Helygain saif Ceyrdd Oes yr Haearn fel Penycloddiau a Moel y Gaer yn drawiadol yn erbyn yr awyr.

Bu'r Rhufeiniaid yn gorymdeithio drwy'r ardal am fwy na thair canrif gan adael nifer fawr o'u holion.

Gellir gweld rhannau o Glawdd Offa a Chlawdd Wat hyd heddiw. Y Saeson a greodd y cloddiau a'r ffosydd anferth hyn yn yr wythfed ganrif i nodi'r ffin gyda Chymru.

Mae Sir y Fflint yn frith o hen gestyll a godwyd yn ystod y brwydro am rym a fu rhwng twysogion Cymru a Brenhinoedd y Normaniaid. Roedd Cestyll Ewloe a Chaergwrle'n gestyll Cymreig ond rhai

Normanaidd oedd Fflint a Phenarlâg. Castell mawreddog y Fflint oedd y cyntaf o gadwyn o gestyll a gododd y Brenin Iorwerth I ar hyd glannau môr Cymru. Adeiladwyd Castell y Fflint yn ystod ymosodiad 1277 ar Gymru. Roedd yn gastell holol gadarn ac er iddo fod o dan warchae nis cymerwyd erioed. Fel arall fu hanes castell Penarlâg a gipiwyd yn 1282.

O ran y bywyd ysbrydol hefyd, mae Sir y Fflint yn bwysig. Roedd pererindod i Ffynnon Gwenfrewi yn un o'r rhai a barchwyd fwyaf ymhliith holl bererindodau Cristnogol Ewrop. Roedd Abaty Dinas Basing yntau'n gyfoethog ac yn ddyylanwadol dros ben. Saif eglwysi a chapeli tlws y pentrefi'n dyst i'r rhan bwysig a fu i grefydd ym mywyd bob dydd.

Flintshire's Heritage

Discover our Villages



Cilcain



Flintshire has many charming villages for you to discover and enjoy as part of your walking day. Most have thriving local shops and inns, and their buildings reflect a wealth of local history and architecture.

Some of our settlements are well over 900 yrs old and are mentioned in the Domesday Book of 1085. Many are now fascinating conservation areas which range from Edward I's strongholds, such as Caerwys; to estate villages, such as Llanasa and Hawarden; and to places with strong monastic associations, such as Holywell and Pantasaph. Some also lie nestled within the picturesque Clwydian Range Area of Outstanding Natural Beauty, such as Gwaenysgor

and Cilcain. In addition, the London to Holyhead post road passed through Northop, Caerwys and Ysceifiog. To this day they retain buildings that were once 17th and 18th century coaching inns.

Two local rocks have been used in many of the older buildings. Soft, grey limestone is plentiful in the county, and is commonly used in Cilcain, Nannerch and much of Halkyn. Whitford's church and much of Llanasa was built with an attractive yellow sandstone, quarried from northern Flintshire.

Darganfod ein Pentrefi



Halkyn Church
Eglwys Helygain

Llanasa



Ar eich teithiau cerdded drwy Sir y Fflint fe dewch ar draws lawer o bentrefi swynol i'w mwynhau. Yn y mwyafriф ohonynt cewch siopau lleol, tafarnau ffyniannus ac adeiladau sy'n adlewyrchu cyfoeth o hanes lleol.

Mae nifer o'n haneddiadau ymhell dros 900 oed a cheir cyfeiriad at rai yn The Domesday Book, 1085. Mae llawer ohonynt yn leoedd cadwraeth diddorol erbyn hyn sy'n amrywio o gadarnleoedd lorwerth I, fel Caerwys; i bentrefi stadau fel Llanasa a Phenarlâg; i leoedd sydd â thraddodiadau mynachaidd cryf fel Treffynnon a Phantasaph. Mae rhai'n gorwedd o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd, fel Gwaenysgor a Chilcain. Rhed ffordd

dyrpeg Llundain i Gaergybi drwy Laneurgain, Caerwys ac Ysgeifiog. Hyd heddiw mae yma adeiladau a oedd yn dafarnau'r goets fawr yn ystod yr 17eg a'r 18fed ganrif.

Codwyd llawer o'r hen adeiladau gan ddefnyddio dau fath o graig leol. Mae digonedd o'r garreg lwyd feddal yn y Sir ac fe'i defnyddid yn gyffredin yng Nghilcain, Nannerch a Helygain. Codwyd Eglwys Chwitffordd a rhan helaeth o Eglwys Llanasa o dywodfaen melyn deniadol a gloddiwyd yng ngogledd Sir y Fflint.

Flintshire's Heritage

An Industrial Past



Lower Cotton Mill, Greenfield
Y Felin Gotwm Isaf, Maesglas



The underlying rocks and the navigable Dee Estuary brought industry and wealth to rural Flintshire.

Rich veins of lead, silver and zinc within Halkyn's limestone were mined intensively, leaving the scars of shafts, spoil and old roads on its landscape. Long-disused limekilns once turned the rock itself into a useful fertilizer.

Copper, brought mainly from Anglesey, combined with power from a fast stream and access to the coast, provided the impetus for Greenfield Valley. It quickly became the cradle of the Industrial Revolution in North Wales, with mills producing metal wire, cotton, brass pots and pans.

Valuable coal and oil deposits at Point of Ayr, Coed Talon and Llanfynydd gave rise to a local network of railways and factories, including the magnificent viaducts at Ffrith and Cefn-y-bedd.

Thick deposits of clay were found under Knowle Hill at Buckley, upon which grew a successful pottery and brick-making industry. Millions of Buckley bricks have been exported far and wide from the now quiet quaysides of the Dee.

Many of the mills, factories and brickworks have long gone but reminders of this fascinating industrial past can still be found in the heart of our now largely rural county.



Treftadaeth Sir y Fflint

Y Gorffennol Diwydiannol



Waen Brodlas limekilns, Halkyn
Odynnau calch Waun Brodlas, Helygain

Oherwydd y creigiau sydd o dan y ddaear ac Aber Afon Dyfrdwy sy'n fordwyol, daeth diwydiant a chyfoeth i gefn gwlad Sir y Fflint.

Bu cloddio dwys ar wythiennau cyfoethog o blwm, arian, a sinc o fewn calchfaen Helygain, gan adael creithiau'r siafftau, y tomenni sbwriel a'r hen ffyrdd ar y dirwedd. Mewn odynnau calch, nas defnyddiwyd ers talwm, roedd y graig ei hunan yn cael ei throi'n wrtaith defnyddiol.

Cyrchwyd y rhan fwyaf o'r copr o Fôn a gan fod yma nant gyflym a mynediad hawdd i lan y môr dyma'r ysgogiad ar gyfer datblygu Dyffryn Maesglas. Cyn hir yr ardal hon oedd crud Chwyldro Diwydiannol Gogledd Cymru gyda'r melinau'n cynhyrchu gwifren fetel, cotwm, padelli a llestri pres.

Yn sgil cloddio'r gwythiennau glo gwerthfawr yn y Parlwr Du, Coed Talon a Llanfynydd cododd rhwydwaith o reilffyrdd a ffatrioedd gan gynnwys pontydd cario dŵr rhyfeddol yn y Ffrith a Chefn-y-bedd.

Darganfuwyd dyddodion o glai o dan Knowle Hill ym Mwcle ac ar hwn tyfodd diwydiant llwyddiannus y llestri a'r briciau. Allforwyd miliynau o frics ymhell ac agos o lanfeydd Afon Dyfrdwy, sydd bellach mor dawel.

Diflannodd llawer o'r melinau, y ffatrioedd a'r gweithfeydd brics ers talwm iawn ond gwelir olion difyr y diwydiant hyd heddiw yng nghanol ein sir sydd bellach mor wledig.



Caerwys – Ysceifiog

Woodland, lakes and rolling farmland

Distance: 8 km / 5 miles

Time: Allow 2.5 – 3 hrs

Parking: In Caerwys Square (SJ129729) and roadside

Grade: Moderate, many stiles, can be slippy in places

Facilities: Pubs in Caerwys, Babell and Ysceifiog, shops and toilet in Caerwys

Livestock: Lots of sheep and cattle

Coedlannau, llynnoedd a thir amaeth bryniog

Pelter: 8 km / 5 milltir

Amser: Caniatáu 2.5 – 3 awr


Parcio: Sgwâr Caerwys (SJ129729) ar ochr y ffordd

Graddfa: Cymedrol, llawer o gamfeydd, gall fod yn llithrig mewn rhannau

Cyfleusterau: Tafarnau yng Nghaerwys, Babell ac Ysceifiog, siopau a thoiledua yng Nghaerwys

Da Byw: Llawer o ddefaid a gwartheg

Waymarking / Arwyddion:



The Walk

1. From square in Caerwys, turn down Water Street, passing Royal Oak on L. At staggered crossroads continue ahead, signed Trout Farm. Go into fishery, passing buildings on L. Continue over stile ahead, then turn L onto footpath, signed Babell. Climb steep steps.

2. At woodland edge, cross stile ahead. Walk across field to small stile in middle of opposite fence. Continue in same direction across two more fields to road, then turn R and immediately L onto track. Beyond cottage, turn R where path forks. Continue for 800m, passing cottage on L where track widens (ignore path on L here). Where track bears R, take footpath L. Cross hidden stile into field, then walk across field to stile in opposite hedge. Continue along RHS of next field, bearing L thro' scrub at far end to cross metal stile in hedge. Walk diagonally L onto path and follow to road. Turn R along road, R again at crossroads, signed Ysceifiog and Afonwen, then continue along road to T junction.

3. Cross road and walk thro' car park of Black

Lion Inn. Go thro' gate at far end of car park. Continue ahead across fields following RH field edge, passing a large farm on R. Continue in same direction, crossing old stile, until reach small cottage. Go thro' gate and follow cottage drive to road.

4. Turn L, then 10m later turn R uphill and L at next road junction. Turn R onto track opposite "Fairholme". Continue ahead where cottage drive bears R. Cross stile and walk across next field following R fenceline. Cross next stile into woodland. Follow narrow woodland path to R for 600m, descending to path junction. Take R fork, signed Caerwys.

To detour to Ysceifiog, turn L and follow path down to lakes. Cross footbridge and walk up steep hillside. Cross stile at top and walk on narrow path between houses. Cross next stile and turn L to explore village, before retracing your steps to Caerwys sign.

After 15m cross stile and cross field to far L corner. Cross next stile and follow path along R hedgerow towards farm. Go thro' gate and walk past farmhouse on drive. Go thro' gate,



Caerwys – Ysgeifiog



turn R and cross stile on L. Walk diagonally R across field to stile. Cross next field and stile and continue to road.

5. Turn R along road. After 200m turn L over stile beside Marian Cocaldiad. Walk ahead across field and cross another stile by gate. Half way along next field, cross stile on L. Turn R then walk diagonally L across large field. At bottom of hill go thro' hidden gate and follow path down RHS of field beside woodland. Cross stile into woodland and follow path with trout pools on L. Turn L over stile and walk thro' fishery to retrace your steps back to Caerwys Square.

Y Daith Gerdedd

1. O'r sgwâr yng Nghaerwys, trowch i lawr Ffordd y Dŵr, gan fynd heibio tafarn y Royal Oak ar y LICh. Wrth y groesffordd LICh. Ymlaen dros y gamfa o'ch blaen, troi i'r Ch i'r llwybr (arwydd Babell). Dringo'r grisiau serth.

2. Ar ymyl y goedlan, croesi'r gamfa sydd o'ch blaen. Cerdded ar draws y cae i gamfa fechan sydd yng nghanol y ffens gyferbyn. Ymlaen i'n un cyfeiriad dros ddau gae arall ac i'r ffordd, yna troi i'r Dd ac i'r Ch yn union wedyn i lwybr llydan. Y tu hwnt i'r bwthyn, troi i'r Dd ble mae'r llwybr yn fforchio. Ymlaen am tua 800m, gan fynd heibio'r bwthyn ar y LICh ble mae'r llwybr yn lledu (anwybyddu'r llwybr ar y LICh yma). Pan fydd y llwybr yn gwyo'r i'r Dd, cymryd y llwybr i'r Ch. Croesi camfa gudd i'r cae, yna cerdded yn groesgornel i'r Dd ar draws y cae ac i gamfa sydd yn y gornel dde bellaf. Ymlaen ar hyd LIdd y cae nesaf, gwyo'r Ch drwy'r llwyni yn y pen draw a chroesi camfa fetol yn y gwrych. Cerdded yn groesgornel Ch i'r llwybr a'i ddilyn i'r ffordd. Troi i'r Dd ar hyd y ffordd, i'r Dd eto ar y groesffordd (arwydd Ysgeifiog ac Afonwen), yna ymlaen ar hyd y ffordd i'r gyffordd T.

3. Croesi'r ffordd a cherdded drwy faes parcio'r Black Lion. Ymlaen drwy'r giât sydd ar ben pellaf y maes parcio. Syth ymlaen dros y caeau gan ddilyn LI Dd ymlyn y cae, heibio fferm fawr ar y LIdd. Ymlaen i'r un cyfeiriad, croesi hen gamfa, nes dod at fwthyn. Ewch drwy'r giât a dilyn dreif a bwthyn i'r ffordd.

4. Troi i'r Ch, yna ymhen 10m troi i'r Dd i fynd y bryn ac i'r Ch ar y gyffordd nesaf yn y ffordd. Troi i'r Dd ar y llwybr llydan sydd gyferbyn â "Fairholme". Ymlaen eto ble mae dreif y bwthyn yn gwyo'r i'r Dd. Croesi'r gamfa a cherdded ar draws y cae nesaf gan ddilyn y ffens LIdd. Croesi'r gamfa nesaf i'r coed. Dilyn llwybr cul yn y coed i'r Dd am tua 600m, gan ddisgyn i'r gyffordd yn y llwybr. Cymryd y



Marsh marigolds
Melyn y gors

fforch Dd, arwydd Caerwys.

I fynd i Ysgeifiog, troi i'r Ch a dilyn y llwybr i lawr i'r llynnoedd. Croesi'r bont a cherdded i fyny'r bryn serth. Croesi'r gamfa ar ben y bryn a cherdded ar hyd y llwybr cul rhwng y tai. Croesi'r gamfa nesaf a thro'i'r Ch i weld y pentref cyn mynd yn ôl yr un ffordd i arwydd Caerwys.

Ar ôl 15m, croesi'r gamfa a chroesi'r cae i'r gornel dde bellaf. Croesi'r gamfa nesaf a dilyn y llwybr wrth ymlyn LIdd y gwrych tua'r fferm. Mynd drwy'r giât a cherdded heibio ffermdy si'r dreif. Ewch drwy'r giât, troi i'r Dd a chroesi camfa ar y LICh. Cerddwch yn groesgornel Dd dros y cae nesaf ac at gamfa. Croesi'r cae nesaf a'r gamfa ac ymlaen i'r ffordd.

5. Troi i'r Dde ar hyd y ffordd. Ar ôl 200m troi i'r Ch dros y gamfa yn ymlyn Marian Cocaldiad. Cerdded yn syth ymlaen ar draws y cae a chroesi camfa arall wrth y giât. Hanner ffordd ar draws y cae nesaf, croesi'r gamfa ar y LICh. Troi i'r Dd ac yna cerdded yn groesgornel Ch ar draws cae mawr. Ar waelod y cae, ewch drwy'r giât gudd a dilyn y llwybr i lawr LIdd'r cae yn ymlyn y goedlan. Croesi'r gamfa i'r coed a dilyn y llwybr gan gadw'r Llynnoedd Brithyll ar eich LICh. Troi i'r Ch dros y gamfa a cherdded drwy'r bysgodfa gan ddilyn eich camau'n ôl i Sgwâr Caerwys.



Moorhens nest on Ysgeifiog Lakes
Bydd yr iâr ddŵr yn nythu ar lynnoedd Ysgeifiog

Caerwys

Peaceful Caerwys is reputedly the smallest town in Wales, granted a Royal Charter by Edward I, and once one of the three most important towns in Flintshire! It was at the hub of drovers routes and its livestock markets were renowned.

Ysgeifiog

17th century Ysgeifiog was a busy village situated on the main road from Chester to Denbigh. Packhorses, laden carts and stage coaches all regularly passed through.

Ysgeifiog lakes are man-made, created by the Earl of Denbigh in 1904 for fishing. Look for nesting coots, moorhens and mallard or dragonflies skimming the water in summer.

Caerwys

Caerwys yw tref leiaf Cymru. Derbyniodd Siarter Frenhinol gan y brenin lorwerth I. Ar un cyfnod roedd hi'n un o dair tref bwysicaf Sir y Fflint, yn ganolbwyt ffyrdd y porthmyn a'i marchnadoedd da byw yn rhai enwog iawn.

Ysgeifiog

Lle prysur iawn oedd Ysgeifiog yn yr 17eg ganrif. Lleolir y dref ar y ffordd fawr o Gaer i Ddinbych. Arferai'r ceffylau pwn, y troliau llawn a'r goets fawr deithio drwy Ysgeifiog yn rheolaidd.

Crewyd llynnoedd Ysgeifiog gan larll Dinbych yn 1904 ar gyfer pysgota. Edrychwrch am gwtieir, ieir dŵr a hwyaid yn nythu, neu'r gwas y neidr uwchben y dŵr yn yr haf.

Ysgeifiog Church
Eglwys Ysgeifiog

2

3

Ffynnongroyw

Native woodland and farmland

Distance: Long route 7.4 km / 4.6 miles

Short route 5.9 km / 3.7 miles

Time: Long route 2.5 – 3 hrs, short route 1.5 – 2 hrs

Parking: Limited parking is available before you cross the stream at Garth Mill (SJ139818) – please do not park at the public house unless you are a patron.

Grade: Long route – moderate, short route – easy, stiles

Facilities: Pubs and post office in Ffynnongroyw

Livestock: Sheep & cows

Coedlannau brodorol a thir amaeth

Pellter: Ffordd hir: 7.4 km / 4.6 milltir

Ffordd fer: 5.9 km / 3.7 milltir

Amser: Ffordd hir 2.5 – 3 awr, Ffordd fer 1.5 – 2 awr


Parcio: Ychydig o leoedd parcio cyn croesi'r nant ym Melin Garth (SJ139818) – peidiwch â pharcio wrth y dafarn oni bai ichi fod yn gwsmer yma.

Graddfa: Ffordd hir – cymedrol, ffordd fer – hawdd, camfeydd

